# Polisi Dyrannu Cyffredin

**Mae'r Polisi Dyrannu Cyffredin yn berthnasol i bawb sydd eisiau gwneud cais am dai cymdeithasol.**

**Mae pob Cymdeithas Tai yn defnyddio'r polisi hwn ar gyfer eu heiddo yng Ngheredigion.**
**Mae'r polisi yn cynnwys:**

- **gwneud cais i fynd ar y Gofrestr Tai Cyffredin**
- **penderfynu pwy sy'n cael eiddo sydd ar gael**

I bobl sydd eisoes ar y Gofrestr Tai Cyffredin, mae gennym ni hefyd:

- Gofrestr Tai Hygyrch
- Cofrestr Tai Pobl Hŷn Dynodedig
- Cofrestr Tai Fforddiadwy, sydd ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd i brynu neu rentu cartref am y pris llawn

Mae gan bob un o'r Cofrestrau hyn ei pholisi ei hun yn ychwanegol at y Polisi Dyrannu Cyffredin hwn.

## Sut wnaethon ni benderfynu beth i'w roi yn y polisi hwn

Rydyn ni wedi diweddaru'r Polisi Dyrannu Cyffredin oherwydd:

- mae mwy o bobl am gael tai cymdeithasol
- mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein cymunedau'n gryf
- mae cyfraith newydd, Deddf Tai (Cymru) 2014
- mae rôl newydd gan rentu preifat o ran darparu tai fforddiadwy, diogel
- mae newidiadau wedi bod i fudd-daliadau
- gallwn yn awr helpu pobl sy'n rhentu'n breifat i gael eu landlord i wneud eu cartref yn ddiogel ac o ansawdd rhesymol

Prif nodau'r polisi yw:

- defnyddio tai cymdeithasol i wneud cymunedau yn gryfach
- gwneud yn siŵr bod eiddo yn mynd i'r bobl sydd angen ein cymorth fwyaf
- gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ble maen nhw'n sefyll
- gwella ansawdd tai rhent preifat

## Defnyddio tai cymdeithasol i wneud cymunedau yn gryfach

Bydd y Polisi Dyrannu Cyffredin yn helpu i wneud cymunedau yn gryfach oherwydd:

- mae'n helpu pobl gyda swyddi i aros yn eu cymuned neu symud i mewn i gymuned.
- mae'n helpu teuluoedd sy'n gweithio sydd ar gyflog isel. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod cyflogau yng Ngheredigion yn is na'r cyfartaledd.
- Rydyn ni'n helpu pobl i gadw eu tenantiaethau er gwaethaf y newidiadau mewn budd-daliadau.
- rydyn ni'n glir sut rydyn ni'n disgwyl i denantiaid ymddwyn, ac rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod tenantiaid preifat a thenantiaid tai cymdeithasol yn cael eu trin yn gyfartal.
- rydyn ni wedi cynllunio system bandiau, ac rydyn ni'n credu y bydd yn adeiladu cymunedau cryf. Rydyn ni'n esbonio'r system bandiau ar dudalen 8 y polisi hwn.
- Rydyn ni'n ei wneud yn fwy pwysig i gael cysylltiad lleol, trwy gynyddu'r amser mae'n rhaid eich bod chi wedi cael cysylltiad lleol i 5 mlynedd.

## Gwneud yn siŵr bod cartrefi yn mynd i'r bobl sydd angen ein cymorth fwyaf

Bydd y polisi hwn yn ein helpu ni:

- i wneud beth mae'n dweud yn Neddf Tai (Cymru) 2014.
- i baratoi ar gyfer newidiadau i'n dyletswyddau digartrefedd.
- i ddatblygu rôl y sector rhentu preifat.

Bydd y polisi hwn yn:

- lleihau effaith newidiadau i fudd-daliadau ar denantiaid tai cymdeithasol.
- rhyddhau eiddo hygyrch i'r bobl sydd eu hangen fwyaf.
- gadael i ni wybod pwy sydd angen cymorth fwyaf.
- ein helpu ni i weithio gyda'r tîm Diogelu Iechyd y Cyhoedd i wneud yn siŵr bod eiddo rhent preifat o ansawdd gwell. Mae hyn yn golygu y bydd angen eiddo rhent cymdeithasol ar lai o bobl.
- dangos i bobl lle i gael help. Nid oes angen tai cymdeithasol ar bawb. Gall anghenion tai rhai pobl gael eu diwallu mewn ffordd wahanol.

## Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ble maen nhw'n sefyll

Rydyn ni am i bobl fod yn glir am faint o siawns sydd ganddyn nhw o gael tai cymdeithasol.

Rydyn ni am gynnig opsiynau eraill i bobl na fyddan nhw'n cael tai cymdeithasol.

Bydd y polisi arfaethedig yn:

- defnyddio system bandiau. Mae hyn yn cael ei esbonio ar dudalen 8.
- cymryd i ystyriaeth pa mor hir mae pobl wedi bod yn aros.
- ei gwneud yn glir y byddwn ni fel arfer dim ond yn cynnig tai cymdeithasol i bobl ym Mand A, B neu C. Byddwn ni'n helpu pobl ym Mand D, E neu F i gael ateb gwahanol i'w hangen am dai.
- ein helpu i weithio gydag Diogelu Iechyd y Cyhoedd i wella eiddo rhent preifat. Mae hyn yn golygu y bydd llai o bobl yn mynd ar y gofrestr tai oherwydd bod eu cartref o ansawdd gwael neu'n anniogel.
- rhoi gwell syniad i bobl o faint o amser y bydd yn rhaid iddyn nhw aros i gael cynnig tai cymdeithasol.
- cymryd i ystyriaeth pa mor hir mae pobl wedi bod yn aros pan fyddwn ni'n dyrannu eiddo.

## Gwella ansawdd tai rhent preifat

Mae rhai pobl mewn tai rhent preifat yn gwneud cais i fynd ar y Gofrestr Tai Cyffredin oherwydd bod eu tai yn anniogel neu o ansawdd gwael.

Os bydd rhywun yn gwneud cais i'r Gofrestr oherwydd tai preifat o ansawdd gwael:

- bydd Iechyd y Cyhoedd yn asesu’r tai
- byddwn ni’n cysylltu â'r landlord
- byddwn ni’n rhoi amser i'r landlord i wella'r eiddo cyn i ni ddyrannu band i'r person

Byddwn ni’n gwneud yn siŵr bod y cwestiynau ar y ffurflen gais Cofrestr Tai Cyffredin yn cyfateb i'r cwestiynau ar y System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i Tai a Iechyd y Cyhoedd weithio gyda’i gilydd i daclo tai preifat o ansawdd gwael.

Bydd tai'n cael eu hasesu gan ddefnyddio'r System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai. Mae dau gategori ar gyfer peryglon. Mae Categori 1 yn ddifrifol iawn. Mae Categori 2 yn llai difrifol.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn  'cyflwyno hysbysiad gorfodi' i’r landlord i wella'r tai os:

- mae un neu ragor o beryglon Categori 1, ond mae'n rhesymol i'r person aros yn y tai ar hyn o bryd
- mae sgôr uchel iawn yng Nghategori 2

Gall Cyngor Sir Ceredigion siarad â'r landlord os oes sgôr uchel yng Nghategori 2.

Gallwn ni roi cyngor os oes peryglon, ond gallai'r tenant ddelio â'r peryglon eu hunain.

# Gwneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin

Mae tri cham i'r broses:

1. Adnabod yr angen am dai
2. Gwirio os dylai'r ymgeisydd fod ym Mand F
3. Asesu'r cysylltiad lleol

## 1. Adnabod yr Angen am Dai

**Rydyn ni'n defnyddio system bandiau ar gyfer yr angen am dai. Mae'r system bandiau yn cael ei hesbonio ar** **dudalen 8**

Mae gennym ni restr o resymau dros roi blaenoriaeth i bobl am dai cymdeithasol. Mae rhai yn rhesymau cenedlaethol. Mae rhai yn rhesymau lleol.

Yn genedlaethol, mae'n rhaid i bob cyngor roi blaenoriaeth i:

- bobl sy'n ddigartref. *Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn egluro beth mae 'digartref' yn ei olygu.*
- pobl y mae'r Ddeddf yn dweud y mae'n rhaid i'r cyngor lleol eu helpu.
- pobl sy'n byw mewn tai anniogel, gorlawn neu fudr iawn.
- pobl sydd angen symud oherwydd mae ble maen nhw'n byw yn cael effaith ddrwg ar eu hiechyd neu lesiant.
- pobl sydd angen symud i ardal benodol. Os nad ydyn nhw'n gallu symud yno, bydd yn achosi problemau difrifol iddyn nhw neu i bobl eraill.

Yn lleol, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth i:

- bobl sy'n gorfod talu'r 'dreth ystafell wely'.
- pobl sy'n byw mewn tai hygyrch, ond nad oes angen cartref hygyrch arnyn nhw bellach.
- pobl sy'n barod i symud o dai â chymorth i'w cartrefi eu hunain.
- pobl sydd wedi bod mewn gwaith llawn-amser yng Ngheredigion am o leiaf 5 mlynedd, ac nad ydyn nhw'n ennill llawer o arian.

Os bydd pobl yn gwneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin a bod o leiaf un o'r categorïau uchod yn berthnasol iddyn nhw, byddwn ni'n eu rhoi ym Mand A, B neu C. Fel arfer, dim ond pobl yn y bandiau hyn sy'n gallu cael tai rhent cymdeithasol.

**Anghenion tai eraill**

Mae rhai pobl ag anghenion tai am resymau nad ydyn nhw yn y rhestr flaenoriaeth genedlaethol neu leol.

Byddwn ni'n  rhoi'r ymgeiswyr hyn ym Mand D neu E. Byddwn ni'n rhoi gwybod iddyn nhw am help arall gyda thai, fel y Gofrestr Tai Fforddiadwy.

## 2. Gwirio a ddylai'r ymgeisydd fod ym Mand F

Mae Band F ar gyfer pobl na allwn ni eu helpu ar hyn o bryd. Y rhesymau dros roi rhywun ym Mand F yw:

- Mae gan y person ôl-ddyledion rhent. Os yw rhywun yn byw mewn tai cymdeithasol, gall hyn fod ar unrhyw adeg yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Os yw rhywun yn byw mewn tai preifat, byddwn ni'n edrych ar eu cyfeiriad presennol. Os ydyn nhw wedi byw yno am lai na 5 mlynedd, byddwn ni hefyd yn edrych ar eu cyfeiriad blaenorol.
- Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol parhaus wedi digwydd, sy'n ddigon difrifol i stopio'r person rhag gallu cadw tenantiaeth.
- Mae'r person wedi gwrthod eiddo sy'n diwallu eu hanghenion. Bydd y rheol hon yn berthnasol i bob ymgeisydd.
- Nid oes unrhyw gysylltiad lleol gan y person (oni bai bod gennym ni ddyletswydd tuag ato oherwydd ei fod yn ddigartref).
- Rheswm y person dros wneud cais yw tai o ansawdd gwael, ac rydym yn dal i asesu'r perygl a siarad â'r landlord. *Gall pobl aros ym Mand F am hyd at 9 wythnos, yna byddwn ni'n eu symud nhw i'r band cywir.*
- Mae gan y person gynilion dros £75,000 a/neu incwm cartref dros £25,000. Mae hyn er mwyn i ni allu targedu pobl sy'n gweithio sydd ar enillion isel na allan nhw fforddio prynu neu rentu cartref yn breifat. ***Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i bobl hŷn sydd angen tai gwarchod neu dai gofal ychwanegol.***
- Mae'r person wedi gwneud ei gartref yn waeth oherwydd ei fod am wneud cais am dai cymdeithasol.

Byddwn yn gwirio bob blwyddyn a ddylai rhywun aros ym Mand F neu gael ei symud i fand arall.

## 3. Gwirio a oes gan rywun gysylltiad lleol

Mae cael cysylltiad lleol yn golygu:

- mae person wedi bod yn byw yng Ngheredigion am o leiaf 5 mlynedd pan mae'n gwneud cais i fynd ar y Gofrestr.
- mae person wedi ei gyflogi drwy gydol y flwyddyn yng Ngheredigion am o leiaf 3 blynedd pan mae'n gwneud cais i fynd ar y Gofrestr.
- mae gan berson deulu agos sydd wedi byw yng Ngheredigion am o leiaf 10 mlynedd.
- mae person yn y lluoedd arfog, neu wedi gadael y lluoedd, ac mae wedi byw yng Ngheredigion am o leiaf 5 mlynedd ar ryw adeg yn ystod ei fywyd.

# Dyrannu tai

Pan fydd eiddo ar gael, bydd y Tîm Cofrestr Tai yn ei ddyrannu i fand.

- Rydyn ni am i 40% o dai cymdeithasol fynd i bobl ym Mand A
- Rydyn ni am i 30% o dai cymdeithasol i fynd i bobl ym Mand B
- Rydyn ni am i 30% o dai cymdeithasol i fynd i bobl ym Mand C

Byddwn ni wedyn yn edrych ar bobl ar y Gofrestr Tai Cyffredin sydd yn y band hwnnw.

Byddwn yn cymryd i ystyriaeth pa mor hir mae rhywun wedi bod yn aros. Os yw dau o bobl â'r un angen am dai, byddwn yn cynnig yr eiddo i'r person sydd wedi bod yn aros hirach.

Mae'r amser aros yn dechrau pan fydd person yn mynd ar y Gofrestr Tai Cyffredin. Ond os bydd rhywun yn symud i fand uwch, rydyn ni'n dechrau yr amser aros eto o'r dyddiad y mae'n symud i fyny.

Os yw tai mewn ardal anodd ei gosod, gall gael ei gynnig i bobl ym Mand D neu E.

# Y System Bandiau

**Ffeithiau pwysig**

Rydyn ni am i:

- 40% o dai cymdeithasol fynd i bobl ym Mand A
- 30% o dai cymdeithasol fynd i bobl ym Mand B
- 30% o dai cymdeithasol fynd i bobl ym Mand C

Efallai bydd pobl ym Mand D neu E yn cael cynnig tai cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd anodd eu gosod. Ond y prif gymorth y byddwn ni'n cynnig iddyn nhw fydd drwy'r Gofrestr Tai Fforddiadwy.

Ni fydd pobl ym Mand F fel rheol yn cael cynnig tai cymdeithasol.

Os yw rhywun ym Mand F oherwydd ôl-ddyledion rhent, byddwn ni'n ei symud i fand arall pan fydd ei landlord yn dweud wrthon ni ei fod wedi cadw at gynllun ad-dalu.

## Band A

I fod ym Mand A, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol:

- Mae gan o leiaf un person yn eich cartref anghenion meddygol, iechyd meddwl, anabledd dysgu neu lesiant blaenoriaeth uchel.
- Rydych chi'n denant Tai Cymdeithasol Ceredigion sydd:
    - yn byw mewn eiddo wedi'i addasu ond nid oes angen eiddo wedi'i addasu arnoch chi, neu
    - mae gennych ddwy (neu fwy) o ystafelloedd gwely yn fwy nag sydd eu hangen.
- Rydych chi'n byw ac yn gweithio'n llawn-amser yng Ngheredigion. Mae'n rhaid eich bod chi wedi byw a gweithio yng Ngheredigion am o leiaf y 5 mlynedd diwethaf.
- Mae gennych 2 neu fwy o'r rhesymau dros fod ym Mand B.

## Band B

I fod ym Mand B, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol:

- Mae gan o leiaf un person yn eich cartref anghenion meddygol, iechyd meddwl, anabledd dysgu neu anghenion llesiant blaenoriaeth ganolig.
- Rydych chi'n ddigartref ac mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i ni eich helpu chi.
- Mae angen i chi symud ymlaen o'r ysbyty, cartref gofal, tai â chymorth neu o fod mewn gofal.
- Rydych chi'n denant Tai Cymdeithasol Ceredigion sydd ag 1 ystafell wely yn fwy nag sydd ei angen.
- Mae eich cartref wedi cael ei asesu fel lle anniogel iawn, ac nid yw'r landlord wedi cywiro pethau. *Mae 'anniogel iawn' yn golygu perygl Categori 1 neu lawer o beryglon Categori 2. Mae'r rhain yn cael eu hesbonio yn ein gwybodaeth am* ***Adfeiliad****.*
- Rydych chi eisoes yn rhentu cartref yng Ngheredigion ac mae angen o leiaf 2 yn fwy o ystafelloedd gwely arnoch chi. *Mae sut rydyn ni'n penderfynu hyn yn cael ei esbonio yn ein gwybodaeth am* ***Orlenwi****.*
- Mae gennych chi ddau neu fwy o'r rhesymau dros fod ym Mand C.

## Band C

I fod ym Mand C, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol:

- Mae gan o leiaf un person yn eich cartref anghenion meddygol, iechyd meddwl, anabledd dysgu neu lesiant blaenoriaeth isel
- Rydych yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref ac mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i ni eich helpu chi.
- Mae eich cartref wedi cael ei asesu fel lle nad yw'n ddiogel iawn, ac nid yw'r landlord wedi ei gywiro. Mae *'nad yw'n ddiogel iawn' yn golygu rhai peryglon Categori 2 y mae angen i'r landlord eu datrys. Mae'r rhain yn cael eu hesbonio yn ein gwybodaeth am* ***Adfeiliad***.
- Rydych chi eisoes yn rhentu cartref yng Ngheredigion ac mae angen 1 yn fwy o ystafelloedd gwely arnoch chi. *Mae sut rydyn ni'n penderfynu hyn yn cael ei esbonio yn ein gwybodaeth am* ***Orlenwi.***

Mae angen i chi symud i Geredigion:

  - i gael y cymorth sydd ei angen arnoch chi, neu
  - i roi cymorth i berson sydd eisoes yn byw yng Ngheredigion.

- Mae angen i chi symud i Geredigion i weithio fel 'Gweithiwr Allweddol'. *Mae hyn yn cael ei esbonio yn ein gwybodaeth am* ***Weithwyr Allweddol***.

## Band D

I fod ym Mand D, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol:

- Mae gennych chi blant dan 8 oed ac nad oes gennych ardd.
- Mae eich cartref wedi cael ei asesu fel lle nad yw'n ddiogel iawn, a gallwch chi wneud pethau eich hun i'w wneud yn fwy diogel. Mae *'nad yw'n ddiogel iawn' yn golygu rhai peryglon Categori 2. Mae hyn yn cael ei esbonio yn ein gwybodaeth am* ***Adfeiliad***.

## Band E

I fod ym Mand E, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol:

- Nid oes unrhyw un yn eich cartref ag unrhyw anghenion meddygol, iechyd meddwl, anabledd dysgu neu lesiant.
- Mae eich tai yn ddiogel ac yn rhesymol o ran ansawdd.
- Mae gennych chi'r nifer cywir o ystafelloedd gwely.

## Band F

Byddwn ni'n eich rhoi ym Mand F os bydd unrhyw un o'r rhain yn berthnasol:

- Rydych chi'n aml mewn dyledion rhent.
- Rydych chi wedi cael eich troi allan, neu y gallech chi gael eich troi allan oherwydd ymddygiad gwael.
- Rydych chi wedi gwneud eich tai yn waeth i geisio cael tai cymdeithasol.
- Rydych chi wedi gwrthod cynnig rhesymol o dai oddi wrthon ni.
- Nid oes cysylltiad lleol gyda chi. *Nid yw'r rheol hon yn gymwys os oes gennym ni ddyletswydd gyfreithiol i'ch helpu chi am eich bod yn ddigartref.*
- Mae eich cartref yn ennill mwy na £25,000 y flwyddyn, neu mae ganddo fwy na £75,000 o gynilion. *Nid yw'r rheol hon yn berthnasol os ydych chi eisiau Tai Pobl Hŷn Dynodedig.*